



Creu cymunedau cryf:
Papur trafod

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Sarah Lloyd Jones, ar gyfer WCVA a Talwrn.

Cyhoeddwyd gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Gorffennaf 2017.
Prif swyddfa: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH.

Ffôn: 0800 2888 329 (croesewir galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg).

E-bost: help@wcva.org.uk

Mae WCVA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a geir yn y Gymraeg, yn y Gymraeg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Rhif elusen gofrestredig 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299.

ISBN 978-1-910340-26-4

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Beth rydym yn ei olygu wrth gymunedau cryf?	1
Beth rydym yn ei olygu wrth gymuned?.....	2
Ym mha ffordd y gellir cryfhau cymunedau?	4
Grymuso: yn ganolog i feithrin cryfder mewn cymunedau?	4
Pa wahaniaeth y byddai cymuned gryf yn ei wneud?	5
Mesur llwyddiant	6
Beth ddylai a beth na ddylai'r llywodraeth ei wneud nesaf?	7

Cyflwyniad

Fis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn datblygu dull trawslywodraethol newydd o greu Cymunedau Cryf¹. Bydd tair elfen i'r dull - y blynyddoedd cynnar, cyflogaeth a grymuso. Cyd-destun hyn yw'r angen parhaus i drechu tlodi ac anfantais yng Nghymru ar adeg pan fo yna ansicrwydd mawr ac adnoddau'n cael eu torri. Daw'r dull newydd hwn wrth i raglen Cymunedau yn Gyntaf gau, a hefyd wrth i'r rhaglenni Ewropeaidd presennol ddod i ben yn 2020.

Mae gan y trydydd sector, sy'n cynnwys dros 6,000 o grwpiau cymunedol, brofiad helaeth o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb mewn cymunedau ledled Cymru. Mae ganddo hefyd gyfoeth o syniadau ar ddulliau arloesol at y dyfodol. Mae'n bwysig bod y sector nawr yn dod â'i syniadau a'i arbenigedd at ei gilydd o ran greu cymunedau cryfach ac er mwyn helpu i siapio syniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r rôl y gall hi, a chyrrff cyhoeddus eraill, ei chwarae yn hyrwyddo cymunedau cryf ac yn eu grymuso.

Mae'r papur hwn yn nodi cyfres o bwyntiau trafod i helpu i ysgogi syniadau ynglŷn â chymunedau cryf. Mae'n tynnu ar adolygiad o lenyddiaeth ynghylch cryfder, grymuso a chymunedau. Mae hefyd yn tynnu ar drafodaethau cychwynnol y mae [WCVA](#) wedi'u cael â rhwydweithiau trydydd sector - gan gynnwys [Cynghrair Pobl Dduon](#), [Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#), [Plant yng Nghymru](#), [Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol](#), [Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru](#), [Cyngor Rhyng-ffydd Cymru](#), [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#), [Urdd Gobaith Cymru](#) a Grŵp Cydraddoldeb Cymru - a thrafodaethau y mae cynghrair [Talwrn](#) wedi'u cael a'i haelodau hithau.

Gobeithiwn y bydd o gymorth i fudiadau trydydd sector ddatblygu eu syniadau eu hunain a chyfrannu at bapur safbwynt gan y trydydd sector a fydd yn cael ei ddefnyddio i ysgogi trafod a chynllunio yn y sector drwyddo draw, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref.

Gobeithiwn y bydd y papur hwn o gymorth i ysgogi trafodaeth, p'run ai a ydych yn cytuno neu'n anghytuno. Byddem wrth ein boddau o glywed eich barn, eich syniadau a'ch enghreifftiau o ffyrdd y mae cymunedau yng Nghymru yn cymryd rheolaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau i:

talwrn@peopleandwork.org.uk neu anicholl@wcva.org.uk

Ewch i www.wcva.org.uk am ragor o wybodaeth ynglŷn â chymunedau cryf, ac ymunwch â'r drafodaeth ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnod [#CymunedauCryf](#) neu dudalen Facebook WCVA, www.facebook.com/walescva.

Beth rydym yn ei olygu wrth gymunedau cryf?

Mae'n bwysig bod yr iaith yn gywir. Gall termau fel grymuso, llesiant, hunangynhaliath a chryfder gyfuno â'i gilydd ond mae gwahaniaethau pwysig. Mae'n bosib i'r termau olygu dim byd i rai pobl mewn cymuned ac i eraill gallent gyfleu ystyron anfwriadol.

¹<http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4083&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=14/02/2017&endDt=14/02/2017#458397>

Mae **cryfder** yn y cyd-destun hwn yn golygu'r gallu i ymdopi â phethau annisgwyl ac anawsterau. Defnyddir y gair 'cydnerthedd' yn ogystal. Mae'n cynnwys ffactor amddiffynnol sy'n helpu pobl i ymdopi â thrallod. Mae llawer o'r trafod ynglŷn â chryfder wedi bod yn ymwneud ag unigolion ond mae yna ddiddordeb cynyddol yn rôl cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol pobl ac i ba raddau y mae'n meithrin neu'n atal cryfder². Mae hyn yn awgrymu bod unigolion yn gryfach pan fyddant yn rhan o gymuned gryf.

Mae fframwaith llywodraeth y Deyrnas Unedig, [Strategic National Framework on Community Resilience](#), yn nodi bod cryfder cymunedol yn ymwneud â chymunedau ac unigolion yn manteisio ar adnoddau ac arbenigedd lleol i'w helpu eu hunain mewn argyfwng, mewn ffordd sy'n ategu ymateb y gwasanaethau brys³. Rydym wedi gweld llawer o dystiolaeth yn yr ymatebion i drychinebau diweddar o sut y mae hyn yn gweithio. Serch hynny, ni ellir cymryd yn ganiataol bod gallu cymuned i ddod ynghyd ar ôl sioc neu argyfwng yn dynodi ei allu i fynd i'r afael â'r problemau hirdymor, fel cyflogaeth neu iechyd gwael, y mae cymunedau sydd dan anfantis yng Nghymru yn eu hwynebu. Hefyd, mae'r cysyniad o gryfder yn y cyd-destun hwn yn ymwneud yn fwy â chynnal y sefyllfa bresennol, ymdopi, yn hytrach na datblygu cryfderau newydd; mae'n awgrymu'r gallu i ailgodi ar ôl argyfwng yn hytrach na symud ymlaen.

A ddylai'r cysyniad fod yn ehangach na hyn, gan ganolbwyntio'n fwy ar **gynaliadwyedd** hirdymor yn hytrach na gwrthsefyll pethau annisgwyl? Mae'n ymddangos bod y tri maes y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt i ddechrau yn hyrwyddo model ar gyfer cymuned fel amgylchedd sy'n meithrin plant a theuluoedd; amgylchedd sy'n hyrwyddo uchelgais a dysgu a all arwain at gyflogaeth; ac amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau, siapio gwasanaethau a chydweithio. Gellid dadlau y byddai cymuned o'r fath yn well am ymdopi â'r ansicrwydd a'r pwysau sy'n wynebu'r economi, y gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cwestiynau:

Beth ydych chi'n meddwl y dylai 'cryfder' ei olygu yng nghyd-destun cymunedau?

Ar beth y dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymunedau ganolbwyntio? A yw'r canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, cyflogaeth a grymuso yn gywir? Beth sydd ar goll?

Beth hoffech chi, a'r cymunedau rydych yn gweithio gyda nhw, i hanfod y dull newydd fod?

Beth rydym yn ei olygu wrth gymuned?

Defnyddir y term cymuned i ddisgrifio grŵp o bobl sydd wedi'u dal ynghyd gan ryw edefyn cyffredin. Efallai eu bod i gyd yn byw yn yr un ardal, neu efallai eu bod yn rhannu diddordeb, ffydd neu ethnigrwydd neu ryw nodwedd gyffredin arall (er enghraifft, y gymuned fyddar).

Serch hynny, mae yna gymhlethdodau mawr wrth geisio deall cymuned. Gall pobl berthyn i fwy nag un gymuned, ac nid rhywbeth sefydlog yw'r hyn sy'n eu gwneud yn

² Herrman et al., 2011; Unger, 2008; Seccombe, 2002; Gilligan, 2001

³ Swyddfa'r Cabinet 2011

rhan o unrhyw gymuned. Hyd yn oed o fewn cymunedau daearyddol mae yna wahanol grwpiau o bobl a bydd pob un o'r bobl hyn yn eu hystyried eu hunain yn perthyn i deulu, stryd, cymdogaeth, tref neu bentref, sir a gwlad. Mae yna raglenni cyfatebol sydd wedi ceisio trechu tlodi ar bob un o'r lefelau hyn: y rheini sydd wedi gweithio ar lefel cymdogaeth (gwerthfawr i gefnogi unigolion a theuluoedd); eraill sy'n gweithio ar lefel tref⁴ (mwy effeithiol i ddatblygu'r economi leol ac adfywio canol trefi); strategaethau sirol (cefnogi a hyrwyddo menter a chyflogaeth leol); a gwaith datblygu economaidd ar lefel Cymru.

Os mai nod y dull newydd yw bod aelodau o gymuned yn gwneud mwy i'w helpu eu hunain a'i gilydd, yna mae'n ddefnyddiol canolbwyntio ar ardaloedd lleol iawn a chefnogi ffyrdd i aelodau o'r gymuned gymryd rhan mewn gweithgareddau. Os mai'r nod yw bod pobl yn ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol, gan weithio gyda gwasanaethau i newid darpariaeth i ateb anghenion yn well neu wella'r economi leol, yna efallai y bydd angen gweithio ar draws tref neu gasgliad o bentrefi.

Mae yna lawer o feddwl wedi bod ynglŷn â gwaith yn seiliedig ar ardal neu le, gan flaenoriaethu cymunedau daearyddol ac ystyried ffyrdd o gael pobl, gwasanaethau a pholisïau i weithio gyda'i gilydd. O gofio bod Cymru'n agored i ergydion economaidd annisgwyl - colli swyddi, ac effaith bosib Brexit ar wlad sy'n dibynnu'n anghymesur ar allforion - gellid dadlau bod gwaith yn seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar yr economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol a'r ffordd y mae'n effeithio ar gymunedau yn hanfodol. Mae angen i ni o leiaf fod yn glir ynghylch pa fath o waith y mae angen ei wneud, ac ar ba faint o gymuned, er mwyn creu'r newidiadau a ddisgwylir.

Felly mae angen i ni fod yn glir yngylch pa gymuned y mae angen i ni ganolbwyntio arni wrth geisio hyrwyddo'r llesiant sy'n sail i gryfder. Mae llesiant yn gofyn am ddull holistaidd sy'n cynnwys trechu tlodi, cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, adeiladu economi leol weithgar, datblygu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth, gwella'r amgylchedd lleol a chefnogi iechyd da. Yn nodweddiadol bydd rhaglenni llywodraethol efallai'n mynd i'r afael ag un neu ddau o'r materion hyn (fel y blynyddoedd cynnar neu gyflogaeth) ac yn gweithio mewn cymdogaeth, tref neu ranbarth i wneud hynny. Er mwyn llwyddo i rymuso cymunedau, fodd bynnag, mae angen iddynt ffurfio rhan o broses gyffredinol i gynnwys y gymuned, gan gyfrannu at ei datblygiad yn hytrach na'i niweidio.

Cwestiynau:

A oes gennych enghreifftiau o'r ffordd y gall cymunedau gydweithio i greu newid? Ar gyfer pwy? Sut y mae hyn yn gweithio yn ymarferol?

Pa rôl sydd gan y trydydd sector i sicrhau newid cymunedol?

Sut y mae dulliau yn seiliedig ar le yn cysylltu ag ysgogwyr rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol?

⁴ Gweler Turnaround Towns. Ymddiriedolaeth Carnegie 2016

Ym mha ffordd y gellir cryfhau cymunedau?

Nid yw meithrin rhwydweithiau cymdeithasol tyn yn ddigon ar ei ben ei hun. Tra gall rhwydweithiau cymdeithasol agos o fewn cymunedau helpu i fynd i'r afael â rhai agweddau ar lesiant, fel arwahanrwydd, gallant hefyd atgyfnerthu anfantais drwy 'normaleiddio' rhai o effeithiau tlodi megis cyrhaeddiad addysgol gwael, incwm isel neu broblemau iechyd cronig. Dengys y dystiolaeth y gall cymunedau lleol hwyluso yn ogystal â rhwystro cryfder⁵.

Gellid dadlau, felly, fod gwaith sy'n helpu aelodau o gymuned i addasu a datblygu eu rhwydweithiau cymdeithasol yn effeithiol y tu allan i'r gymuned (er enghraifft, annog a chefnogi pobl sydd wedi bod yn dysgu yn y gymuned i symud i gwrs yn y coleg lleol) yn debygol o gael mwy o effaith ar drechu tlodi ac anfantais na gwaith sy'n canolbwyntio'n llwyr ar y gymuned.

Mae model mwy positif ar gyfer cryfder cymunedol yn un sy'n canolbwyntio ar sut y gall y gymuned addasu a ffynnu drwy newid, yn hytrach na'i oroesi yn unig. Mae'r model hwn yn tynnu ar gryfderau pobl (dulliau yn seiliedig ar asedau), yn hytrach na'u gwendidau neu eu 'hanghenion' ac mae'n ymwneud yn fwy â chynaliadwyedd a hunangynhaliad⁶. Credwn fod hyn yn cyd-fynd yn well â'r syniad o rymuso cymunedau, sy'n awgrymu cymunedau ffyniannus yn rheoli'r hyn sy'n digwydd, yn arwain eu rhaglenni gweithgareddau eu hunain a, phan fo'n briodol, yn cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus a busnesau. Mae yna enghreifftiau pwerus yng Nghymru o sut y gall hyn ddigwydd.

Cwestiynau:

Sut beth yw cymuned gryf? Sut y mae'n wahanol i gymuned wan?

A ydych yn gwybod am enghreifftiau o gamau gweithredu positif a arweinir gan y gymuned sydd wedi gwneud gwahaniaeth positif?

Beth yw'r ffactorau sy'n cefnogi datblygiad cymunedau cryf a sut y gellir cefnogi'r rhain?

Grymuso: yn ganolog i feithrin cryfder mewn cymunedau?

Mae modelau sy'n helpu i feithrin cryfder o fewn cymuned yn cynnwys **grymuso**. Mae yna ddadlau ynghylch a all person, neu asiantaeth, 'rymuso' eraill, ond mae'n glir iawn y gallant ddadrymuso pobl ac, yn y bôn, mae grymuso yn golygu symud pŵer o'r rheini sydd ganddo i'r rheini sydd hebdo. Mae'n broses ddwy ffordd - rhaid rhoi'r gorau i bŵer a rheolaeth fel y gall eraill eu defnyddio.

Mae grymuso yn canolbwyntio'n fwy ar *sut* y gwneir pethau, a phwy sy'n eu gwneud, nag ar beth a wneir. Mae modelau'n disgrifio pobl leol yn creu cyfleoedd a rhesymau i bobl leol eraill ddod at ei gilydd, i wneud pethau gyda'i gilydd ac i wneud gwahaniaeth gweladwy. Maent yn aml yn dechrau gydag aelodau o'r gymuned yn helpu i ymateb i argyfwng, neu atal un (megis cau ysgol leol, neu godi amddiffynfeydd llifogydd) sy'n annog arweinwyr lleol i ddod ymlaen.

⁵ The Young Foundation 2012

⁶ Allmark et al., 2014: Chanan 2003

Er mwyn grymuso, fodd bynnag, mae angen mynd ymhellach nag annog arweinwyr lleol. Mae cymunedau yn amrywiol ac un o'r heriau allweddol yw sut i sicrhau y gall gwahanol grwpiau, megis pobl hŷn, pobl ifanc, pobl anabl, pobl o wahanol ethnigrwydd ac eraill gymryd rhan. Yr ymateb i'r her hon o ran polisiau yn y gorffennol yw targedu rhaglenni at grwpiau penodol yn y gymuned (fel y di-waith, neu deuluoedd mewn tloidi) ond gellid dadlau bod hyn yn gweithio yn erbyn grymuso a chryfder ar lefel y gymuned gan nad yw'n gweithio gyda'r gymuned gyfan.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen arweinyddiaeth effeithiol sy'n ennyn diddordeb yn y gymuned drwyddi draw, a rhwydweithiau cymdeithasol sy'n gweithio y tu mewn i'r gymuned ond sydd hefyd yn denu adnoddau, cysylltiadau a chymorth o'r tu allan i'r gymuned.

Mae'n amheus i ba raddau y mae'n bosib i gorff allanol hyrwyddo'r math yma o weithredu lleol. Mewn adolygiad diweddar gan Carnegie UK o '[Turnaround Towns](#)',⁷ (trefi sydd wedi llwyddo i wrthdroi eu dirywiad) nodwyd ym mhob achos mai pobl leol a ddyfeisiodd ac a arweiniodd y mentrau a wnaeth y gwahaniaeth, er iddynt fanteisio ar gymorth o'r tu allan pan oedd angen.

Tra gall fod yn anodd i asiantaethau allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol, fynd ati i rymuso cymunedau, gallant greu'r amodau a all adael iddo ddatblygu ac, o leiaf, beidio â'i rwystro na'i atal rhag digwydd. Mae ymchwil⁸ wedi dangos bod mudiadau lleol sydd â rheolaeth dros benderfyniadau neu adnoddau lleol yn bwysig er mwyn troi'r rhwydweithiau sy'n datblygu o fewn cymuned yn adnodd a all gael dylanwad ehangach. Gall grwpiau o'r fath, sydd megis 'angor' cymunedol, ddarparu llwyfan i aelodau o'r gymuned ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a'u siapio⁹.

Cwestiynau:

Pa enghreifftiau sydd gennych o gymuned sydd wedi'i grymuso? Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl leol?

A oes yna enghreifftiau o arweinyddiaeth mewn cymunedau sydd wedi llwyddo i gynnwys grwpiau amrywiol o bobl?

Sut y gall y trydydd sector gyfrannu er mwyn grymuso cymunedau yn fwy?

Pa wahaniaeth y byddai cymuned gryf yn ei wneud?

Un o broblemau Cymunedau yn Gyntaf oedd ei fod yn cael ei fesur yn ôl canlyniadau na allai eu cyflawni. Wrth weithio ar lefel gymunedol fach, roedd ei allu i leihau lefelau tloidi bob amser am fod yn gyfyngedig. Mae angen i ni ddysgu o hyn a'i gwneud yn glir beth rydym yn ei olygu wrth sôn am gymuned a beth all ddigwydd ar wahanol lefelau o gymuned.

Os mai nodwedd graidd cymuned gryf yw grymuso'r gymuned, pobl sy'n dod ynghyd i wneud pethau gyda'i gilydd, i ddod i adnabod ei gilydd a chefnogi ei gilydd, yna

⁷ Turnaround Towns, 2016 Carnegie UK

⁸ Chanan 2003

⁹ SCDC 2011

mae'n debygol mai'r canlyniad allweddol fydd gwella llesiant. Mae wedi'i ddangos bod llesiant yn cael effaith ar iechyd ac, yn gyffredinol, ar wella ansawdd bywyd pobl.

Mae peth o'r sylwebaeth y tu ôl i'r dull newydd yn awgrymu y byddai cymunedau cryf yn well am osgoi a lleddfu effeithiau tlodi drwy ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan arwain at arbedion mewn gwasanaethau cyhoeddus. Allwn ni ddim cymryd yn ganiataol, fodd bynnag, fod llesiant, na chynnwys y gymuned, o reidrwydd yn golygu bod pobl yn well am ofalu amdanynt eu hunain neu eraill, neu'n golygu arbedion mewn gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, efallai y gall pobl, wrth fod wedi'u grymuso yn fwy, roi mwy o ofynion ar wasanaethau gan fod ganddynt ddisgwyliadau uwch o'u hansawdd bywyd.

Cwestiynau:

Yn realistig sut y gall mentrau cymunedol gyfrannu at amcanion polisiâu ehangach - gan gynnwys y Nodau Llesiant o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol?

A yw'n rhesymol disgwyl y bydd grymuso a chryfhau cymuned yn arwain at wneud y gymuned a'r rheini sy'n byw ynddi yn fwy hunangynhaliol ac yn rhoi llai o ofynion ar wasanaethau cyhoeddus?

Mesur llwyddiant

Mae'n bwysig gwybod a yw gwaith a wneir gyda chymunedau yn gwneud gwahaniaeth. Mae'n bwysig hefyd fod yn glir ynghylch ar gyfer pwy rydym yn mesur llwyddiant a pham. Mae'n bosib y bydd gan aelodau o gymuned, ymgyrchwyr cymunedol, staff cyflogedig, cyllidwyr, darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisiâu i gyd wahanol amcanion a dangosyddion o lwyddiant, ac wrth gofnodi effaith gwaith rhaid i ni flaenoriaethu a chydbwysu'r anghenion gwahanol hyn.

Tra mae mesur llwyddiant yn helpu i gyfiawnhau cyllid, neu ddilysu cyfeiriad polisi, gellid dadlau mai ei brif rôl yw llywio a siapio'r gwaith. Un o'r beirniadaethau a wnaed ar Cymunedau yn Gyntaf oedd ei fethiant i gofnodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Sut y gallwn gofnodi'n well y gwersi o ran beth sy'n hybu cryfder cymunedau a chyfrannu at arferion gwell?

I fesur llwyddiant rhaid bod yn glir ynghylch yr hyn y gall unrhyw ddull neu weithgaredd newydd ei gyflawni yn realistig. Ceir modelau amrywiol i gofnodi 'llesiant cymunedol' ond prin yw'r wybodaeth ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o fesur effaith a llwyddiant mewn ffordd anymwrthiol. Gall hyn arwain at fudiadau cymunedol yn methu â chofnodi newid yn effeithiol.

Cwestiynau:

A oes gennych enghreifftiau o sut mae newid wedi'i fesur? Sut mae'r rhain wedi cydbwysu blaenoriaethau polisi, cyllid a chymuned?

Beth yw'r ffordd orau i gymunedau adnabod a mesur llwyddiant?

Sut beth fyddai cymuned sydd wedi'i grymuso, o ran ei gwedd a'i gweithredoedd?

Beth ddylai a beth na ddylai'r llywodraeth ei wneud nesaf?

Gellid dadlau nad yw polisi cenedlaethol, hyd yma, ar gefnogi cymunedau wedi bod o gymorth bob amser i ddatblygu cryfder neu i rymuso, a cheir enghreifftiau o'r ffordd y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi dadrymuso cymunedau a'r mudiadau trydydd sector sy'n gweithio ynddynt. I osgoi ailadrodd camgymeriadau mae'n bwysig gwybod yn glir ba rôl y *gall* llywodraeth ganolog a lleol ei chwarae yn grymuso cymunedau. Mae angen i ni o leiaf fod yn glir ynghylch osgoi niweidio cymunedau wrth iddynt gael eu grymuso (fel sicrhau nad yw polisi a phenderfyniadau yn faen tramgwydd). Mae angen i ni fod yn glir hefyd ynghylch rôl y trydydd sector ac, yn hanfodol, ychwanegu at brofiad yng Nghymru drwy edrych ar rannau eraill o Brydain a'r hyn sy'n gweithio yno. Yn olaf, mae angen i'r trydydd sector fod yn glir ynghylch yr amodau lle gall cymunedau ffynnu wrth gael eu grymuso, er mwyn hyrwyddo'r amodau hynny.

Cwestiynau:

A all dull gan Lywodraeth Cymru gefnogi gweithgaredd yn seiliedig ar le ledled Cymru?

A ddylai dull newydd Llywodraeth Cymru fod ar waith mewn rhai cymunedau ac nid eraill? Os felly, ar ba sail y dylid dewis cymunedau?

Beth ddylai'r blaenoriaethau fod i drydydd sector Cymru o ran grymuso a chryfhau cymunedau?